

PWYLLGOR CRAFFU ADNODDAU

Cofnodion cyfarfod o Bell a gynhaliwyd ar 9 Gorffennaf, 2025.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn bresennol: Y Cynghorydd J. Protheroe (Cadeirydd); Y Cynghorydd E. Goodjohn (Is-gadeirydd); Y Cynghorwyr G.M. Ball, S. Campbell, G.D.D. Carroll, P. Drake, R. Fisher, C.P. Franks, E.J. Goodjohn, J.M. Norman a N.J. Wood.

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorwyr A. Asbrey, L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau) a G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles).

153 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: “A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol”.

154 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan y Cynghorwyr Dr. I.J. Johnson a B. Loveluck-Edwards.

155 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mai, 2025 fel cofnod cywir.

156 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

157 ADRODDIAD ABSENOLDEB SALWCH Q4 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad gan y Cabinet ar 19 Mehefin, 2025 fel y'i cynhwyswyd yn yr agenda gan y Partner Busnes AD. Yn dilyn cyflwyno'r cyfeiriad, rhoddodd y Swyddog y cyngor canlynol, mewn ymateb i gwestiynau a sylwadau gan y Pwyllgor::

- Mae'r polisïau sy'n gysylltiedig ag absenoldeb salwch yn caniatáu dull dychwelyd i'r gwaith graddol, mae hyn yn cael ei argymhell gan lechyd Galwedigaethol, yn cael ei fonitro gan Adnoddau Dynol a'r rheolwyr perthnasol, ac yn cael ei ddefnyddio'n sylweddol i gefnogi aelodau o staff.
- Gellid rhoi data cymharol i aelodau o'r pwyllgor ynghylch straen nad yw'n gysylltiedig â gwaith a'r lefelau presennol o gymharu â'r lefelau o'r 10 mlynedd diwethaf, yn enwedig mewn perthynas â'r rhai cyn y pandemig.
- Mewn perthynas ag ymholiad ar effaith gweithio hybrid ar gynhyrchiant, roedd y Polisi Gweithio Hybrid yn caniatáu i reolwyr nodi faint o amser oedd angen i staff fod yn y swyddfa, a gallai hyn amrywio ar draws gwasanaethau. Gellid rhoi mwy o wybodaeth am hyn i'r Pwyllgor.
- Defnyddiodd swyddogion y data absenoldeb salwch i edrych ar ba fesurau cymorth ac ataliol y gellid eu rhoi ar waith i staff, er enghraifft rhoi brechiadau rhag y fflw i staff, darparu gwasanaeth cwnsela, ac asesiadau gwaith iechyd a diogelwch.
- Defnyddiwyd dull cyfannol o ymdrin ag absenoldeb salwch ac roedd hyfforddiant yn cael ei ddatblygu i alluogi rheolwyr i reoli lefelau straen staff a cheisio lleihau ffactorau straen.
- Roedd y Dangosfwrdd AD yn caniatáu i swyddogion chwilio am feysydd pryder ynghylch absenoldeb salwch ar draws gwahanol wasanaethau.
- Roedd y Polisi Gweithio Hybrid wedi bod ar waith ers peth amser ac roedd y tîm Partneriaeth Busnes yn gweithio'n agos gyda rheolwyr, gan nodi a oedd angen i staff fod yn y swyddfa ai peidio, a hefyd herio a oedd angen i staff fod yn gweithio gartref ai peidio.
- Ymhlith y rhesymau dros straen nad oedd yn gysylltiedig â gwaith ymhlith staff roedd profedigaeth, lle bu cynnydd diweddar yn nifer y staff yn cymryd absenoldeb salwch ar ei gyfer.
- Gallai swyddogion edrych ar ddadansoddiad o fesurau llwyddiannus a roddwyd ar waith i gynorthwyo staff â salwch yn gysylltiedig â straen, a gellid cael data trwy Westfield Health ynglŷn â'r nifer yn defnyddio rhaglenni a ddarperir trwyddynt. Gellid trosglwyddo gwybodaeth i'r Pwyllgor hefyd ynghylch nifer yr atgyfeiriadau lechyd Galwedigaethol wedi'u gwneud, a'r cymorth a gafodd staff o'r gwasanaeth hwn, gan gynnwys prosesau dychwelyd i'r gwaith graddol.
- Gweithiodd swyddogion yn agos gyda'r tîm lechyd a Diogelwch o ran cynlluniau gweithredu lles, i gefnogi staff sy'n dod i'r gweithle pan fônt yn barod i wneud hynny.
- Gellid rhoi gwybodaeth ar ôl y cyfarfod ynghylch a roddwyd y rhesymau pellach a ddewiswyd dros absenoldeb oherwydd straen nad oedd yn gysylltiedig â gwaith gan y gweithiwr, neu gan Swyddogion, gan fod y rhain yn amrywio ar draws gwasanaethau.

Heb unrhyw gwestiynau na sylwadau pellach, gwnaeth y Pwyllgor wedyn:

ARGYMHELLWYD –

(1) Y dylid nodi cynnwys y cyfeirnod Cabinet, yr adroddiad a ffigurau absenoldeb salwch Ebrill 2024 i Fawrth 2025 a ddarperir yn Atodiad A.

- (2) Y dylid anfon y ceisiadau canlynol ymlaen at y swyddogion perthnasol:
- Bod y Pwyllgor yn derbyn data cymharol yn ymwneud â lefelau straen gweithwyr gan gymharu'r lefelau presennol â rhai 10 mlynedd cyn hyn;
 - Bod y Pwyllgor yn derbyn gwybodaeth ynghylch gwasanaethau a gyflenwir i'r Cyngor gan Westfield Health;
 - Bod y Pwyllgor yn derbyn gwybodaeth am y llwyddiannau mewn ymdrechion i gynorthwyo staff yn ôl i'r gwaith ar ôl cyfnodau hirach o absenoldeb salwch.

Rhesymau dros yr argymhellion

- (1) Gan ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r adroddiad, ac i drafodaethau yn y cyfarfod.
- (2) Er gwybodaeth i'r Pwyllgor.

158 CAU CYFRIFON 2024/25 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad gan y Cabinet ar 3ydd Gorffennaf, 2025 a oedd wedi'i ddosbarthu i holl Aelodau'r Pwyllgor cyn y cyfarfod gan y Pennaeth Cyllid / Swyddog Adran 151. Yn dilyn y cyflwyniad, rhoddodd y swyddog y cyngor canlynol mewn ymateb i gwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor:

- Roedd ysgolion wedi derbyn yr holl grantiau a oedd yn ddyledus iddynt ar gyfer 2024/25.
- Roedd ysgolion bellach yn cyflwyno eu cyllidebau newydd i'w cymeradwyo, a dyma lle nad oedd darlun llawn ar gael ynglŷn â grantiau a oedd ddyledus i ysgolion, ac ni ddisgwyliwyd hyn tan yn ddiweddarach yn y flwyddyn.
- Byddai'n ddefnyddiol, er enghraifft, i ysgolion wybod beth fyddai'r sefyllfa mewn perthynas â grantiau dyledus erbyn 1 Ebrill bob blwyddyn, a derbyn yr holl grantiau ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, er mwyn caniatáu rheolaeth ariannol effeithiol.
- Er bod y Cyngor wedi bod yn lobïo Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r fformiwla gyllido a dyrannu adnoddau i'r Awdurdod, roedd amseru grantiau i ysgolion yn faes arall lle gallai lobïo ychwanegol fod yn ddefnyddiol.
- Roedd Bro Morgannwg yn parhau i fod yr Awdurdod i gael y swm isaf o gyllid ar gyfer ysgolion o fewn ei 'floc' ysgolion, fodd bynnag, roedd y Cyngor wedi rhoi lefelau sylweddol o adnoddau uwchlaw'r lefel gyllid, ac felly mewn perthynas â'r adnoddau a oedd ar gael i ysgolion, Bro Morgannwg oedd y pumed isaf.
- Er bod ysgolion yn gwneud eu gorau glas i gynnal cyllidebau cytbwys mewn sefyllfaoedd heriol iawn, roedd yn anodd deall sut roedd gan rai ysgolion y lefelau eithriadol o ddiffyg a oedd ganddynt, o ystyried yr adnoddau a oedd ar gael iddynt.

- Roedd swyddogion yn gweithio ar sail un i un gydag ysgolion a oedd yn dangos y lefelau uchaf o ddiffyg.
- Erbyn hyn roedd adnodd caffael ar waith i gefnogi ysgolion, ac er mai costau staff oedd elfen allweddol o gyllidebau ysgolion, roedd yn iawn edrych ar feysydd eraill, fel arferion caffael ysgolion, i nodi ffyrdd o wella eu sefyllfa ariannol.
- Gellid rhoi mwy o wybodaeth i'r pwyllgor ynghylch dyledion heblaw ôl-ddyledion Treth Gyngor, er enghraifft trwy beidio â thalu prydlesi, a oedd yn ddyledus i'r Awdurdod.

Heb unrhyw gwestiynau na sylwadau pellach, gwnaeth y Pwyllgor wedyn:

ARGYMHELLWYD –

- (1) Y dylid y cyfeiriad at y Cabinet a'r adroddiad atodedig ar Gau Cyfrifon 2024/25 yn cael eu nodi.
- (2) Y dylid y Cabinet yn cael ei argymhell i lobïo Llywodraeth Cymru ynghylch amseriad cadarnhau a derbyn eu cyllid grant ar gyfer Ysgolion Bro Morganwg.
- (3) Y dylid y Swyddogion priodol yn trefnu sesiwn friffio ar y cyd i'r Aelodau, fel diweddariad ar y gwaith sy'n cael ei wneud ynghylch gorwariant mewn Addysg, yn enwedig o ran Cludiant Ysgol ac Anghenion Dysgu Ychwanegol.
- (4) Y dylid y Pwyllgor Craffu Adnoddau yn ysgrifennu llythyr at yr Aelodau Senedd perthnasol yn tynnu sylw at farn y Pwyllgor y dylid adolygu'r fformiwla ariannu addysg, gan nad yw o fudd i ysgolion na phlant Bro Morganwg.

Rhesymau dros yr argymhellion

- (1) O ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.
- (2) Oherwydd y problemau y mae oedi wrth gadarnhau a derbyn arian o'r fath yn eu hachosi, i'r Awdurdod Lleol ac Ysgolion Bro Morganwg, o ran gallu rheoli cyllidebau'n effeithiol.
- (3) Er gwybodaeth i'r Aelodau.
- (4) I dynnu sylw at effaith y pwysau ariannol sy'n gysylltiedig â'r fformiwla ariannu ar ysgolion Bro Morganwg.

159 CAU CYFRIFON CYFALAF 2024/25 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad gan y Cabinet ar 3ydd Gorffennaf, 2025, a oedd wedi'i ddosbarthu i holl Aelodau'r Pwyllgor cyn y cyfarfod, gan y Pennaeth Cyllid / Swyddog Adran 151. Yn dilyn eu cyflwyniad, mewn ymateb i ymholiad gan Aelod o'r Pwyllgor, cynghorodd y Swyddog y gallai'r wybodaeth a gynhwysir yn Atodiadau'r adroddiad o'r enw 'Band B Ysgol Y Deri', yn ymwneud ag adeilad newydd yr ysgol, gael ei hanfon ymlaen at y Cadeirydd ynghylch cyfanswm cost y cynllun hwn yn

dilyn yr angen am contractwr newydd.

Heb unrhyw sylwadau nac ymholiadau pellach, fe wnaeth y Pwyllgor wedyn:

ARGYMHELLWYD – Y dylid nodi cyfeiriad y Cabinet a'r adroddiad atodedig ar Gau Cyfrifon Cyfalaf 2024/25.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

160 GRŴP GORCHWYL A GORFFEN AR ADOLYGIAD O BOLISI, SWYDDOGAETH A STRATEGAETH CAFFAEL BRO MORGANWG –

Roedd yr adroddiad, a gyflwynwyd gan y Cadeirydd, yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor am y gwaith adolygu Gorchwyl a Gorffen a oedd wedi'i wneud gan yr hen Bwyllgor Craffu Adnoddau a Pherfformiad Corfforaethol. Adolygodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen y gwaith o lywodraethu'r Polisi Caffael a'r Strategaeth Gaffael o ran ffocws ar gynaliadwyedd, datgarboneiddio a gwerth cymdeithasol er mwyn deall y sefyllfa sydd ohoni, ei heriau, a'r meysydd y gallai fod angen eu gwella, eu hymchwilio a/neu eu datblygu ymhellach, trwy lens Cyngor Bro Morgannwg gan dorri ei Allyriadau Carbon o'r Gadwyn Gyflenwi a gwneud y mwyaf o ganlyniadau gwerth cymdeithasol i'r Awdurdod. Roedd yr adroddiad yn cynnwys cyfres o argymhellion, wedi'u rhannu'n 8 adran neu feysydd pwnc, sef:

- Dogfennau;
- Hyfforddiant;
- Creu Cymuned Ymarfer (CY);
- Creu Bwrdd Caffael Comisiynu;
- Adnoddau;
- Adrodd Casglu Data;
- Systemau TG;
- Treialu Dull Cylchol o Gaffael.

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, mewn ymateb i gwestiwn gan yr Is-gadeirydd, cynghorodd y Cadeirydd fod argymhellion yr adroddiad bellach i Aelodau'r Cabinet eu hystyried, ac y byddai'r Cadeirydd yn disgwyl i'r Polisi Caffael presennol gael ei adolygu ar yr un pryd, fel y gallai'r Cabinet ystyried a allent gefnogi'r argymhellion a wnaed gan y Grŵp Adolygu Gorchwyl a Gorffen.

Heb unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, fe wnaeth y Pwyllgor wedyn:

ARGYMHELLWYD –

(1) Y dylid nodi'r adroddiad ar y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Adolygiad Polisi, Swyddogaeth a Strategaeth Caffael Bro Morgannwg.

(2) Y dylid cyfeirio'r adroddiad at y Cabinet, ac i'r Cabinet ystyried cefnogi'r argymhellion ynddo.

Rheswm dros yr argymhellion

(1&2) Er mwyn i welliannau posibl i swyddogaeth gaffael y Cyngor, a nodwyd gan y Grŵp Adolygu Gorchwyl a Gorffen, gael eu hystyried gan y Cabinet.

161 ADRODDIAD GWEITHGAREDD ADOLYGU TASG A GORFFEN (CAC) –

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu, a gofynnwyd i'r Aelodau ystyried eitemau a phynciau gwaith grŵp ymchwiliol (Adolygiad Gorchwyl a Gorffen) ar gyfer y Pwyllgor Craffu Adnoddau newydd.

Casglwyd amrywiaeth o awgrymiadau gan Aelodau'r Pwyllgor yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mai, 2025, gyda manylion ychwanegol ar nifer o'r awgrymiadau hyn yn cael eu hanfon ymlaen at y Cadeirydd a'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu ar ôl y cyfarfod.

Mae Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol, ynghyd â'r Penaethiaid Gwasanaeth a'r Swyddogion perthnasol, wedi asesu'r awgrymiadau ac wedi rhoi adborth ar gwmpas a hyfywedd y rhain, gan ystyried y gwaith a oedd eisoes wedi'i wneud gan Swyddogion. Ar gyfer rhai awgrymiadau pwnc, efallai y bydd angen gwaith pellach i fireinio cwmpas y pwnc a ymchwiliwyd iddo er mwyn i'r rhain gael eu hasesu a'u hymateb yn llawn gan Swyddogion, ac fel eu bod yn gyraeddadwy o fewn cylch Adolygiad Gorchwyl a Gorffen 12 wythnos.

Lle bo modd, a lle nodwyd pwnc neu adran o bwnc fel un y gellid ei gyflawni yn y tymor byrrach, roedd Swyddogion wedi nodi hyn yn eu hadborth. Lle nodwyd bod gwaith eisoes ar y gweill ar bwnc i fynd i'r afael â mater, roedd hyn hefyd wedi'i nodi, ac mewn rhai achosion, awgrymwyd maes ffocws amgen posibl.

Roedd yr awgrymiadau arfaethedig, a naratif ynghylch cwmpasu dichonoldeb pob un, wedi'u hatodi yn Atodiad A i'r adroddiad. Roedd un pwnc Adolygiad Gorchwyl a Gorffen wedi'i nodi fel un priodol i'w ddatblygu fel y pwnc cyntaf i'r Pwyllgor ymgymryd ag ef, sef 'Strategaeth Gyfathrebu'r Cyngor', fel y manylir yn Atodiad A (1).

Felly, gofynnwyd i'r Pwyllgor Craffu gytuno y dylid dewis y pwnc arfaethedig hwn fel ffocws cyntaf yr Adolygiad Gorchwyl a Gorffen, gyda phynciau eraill a awgrymwyd yn parhau ar agor i'w trafod ymhellach. Yn ogystal, byddai Aelodau'n gallu awgrymu pynciau ar gyfer Adolygiad Gorchwyl a Gorffen drwy gydol y flwyddyn, pe bai'r cyfle i ystyried unrhyw faes sy'n dod i'r amlwg yn codi.

Yn ogystal, gofynnwyd i'r Pwyllgor gadarnhau a chytuno ar faint ac aelodaeth y Grŵp Adolygu Gorchwyl a Gorffen cyntaf. Y nifer awgrymedig o Aelodau ar Grŵp Adolygu Gorchwyl a Gorffen oedd 6, ond gellid darparu ar gyfer nifer is neu uwch yn seiliedig ar ddymuniadau'r Pwyllgor Craffu, gyda'r Cadeirydd yn cael ei benderfynu gan y Pwyllgor Craffu "cartref". Yn ddelfrydol, byddai gan y Grŵp Adolygu Gorchwyl a Gorffen gynrychiolaeth o bob grŵp gwleidyddol. Lle bo'n ymarferol, anogwyd cydbwysedd gwleidyddol. Ar gyfer grŵp o 6 cyfranogwr, byddai hyn yn 3 Aelod o'r

Grŵp Llafur, ynghyd ag 1 Aelod yr un o grwpiau Llantwit First, y Blaid Geidwadol a Phlaid Cymru.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor hefyd benderfynu a fyddai cynrychiolaeth o unrhyw bartïon â diddordeb y tu allan i'r sefydliad yn deilwng.

Unwaith y byddai pwnc ac aelodaeth yr adolygiad wedi'u cytuno, byddai'r Gwasanaethau Democrataidd yn paratoi amserlen o gyfarfodydd, gyda'r rhagolygon y byddai adolygiad yn cael ei gwblhau o fewn 12 wythnos. Ni fyddai hyn yn cynnwys gwyliau'r haf.

Y bwriad oedd y byddai cyfarfod cyntaf y Grŵp Adolygu Gorchwyl a Gorffen yn cynnwys penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd. Byddai'r cyfarfod cyntaf hefyd yn cynnwys ystyried cwmplas llawn sut y byddai'r adolygiad yn cael ei gwblhau. Byddai'r Grŵp hefyd yn cael ei ofyn i ystyried yr amser mwyaf priodol iddo gyfarfod, ac unrhyw dystion arbenigol y gallai eu galw i ddarparu tystiolaeth ac arweiniad, ac i ateb ymholiadau.

Ar ddiwedd yr adolygiad, byddai adroddiad ac argymhellion dilynol yn cael eu bwydo'n ôl i'r Aelod(au) Cabinet perthnasol, y Pwyllgor(au) Craffu cartref, a'r Cabinet i'w hystyried.

Ar ôl ystyried y mater yn llawn, gwnaeth y Pwyllgor wedyn:

ARGYMHELLWYD –

(1) Y dylid cytuno ar bwnc 'Strategaeth Gyfathrebu'r Cyngor', fel y manylir yn Atodiad A (1) i'r adroddiad, fel y pwnc Adolygiad Gorchwyl a Gorffen cyntaf i'w ymgymryd ag ef.

(2) Y dylid penodi'r Aelodau canlynol o'r Pwyllgor i'r Grŵp Adolygu Gorchwyl a Gorffen, yn amodol ar gytundeb yr Aelodau hynny a enwebwyd, ond nad oeddent yn bresennol yn y cyfarfod (a nodir â * isod):

Y Cynghorwyr B. Loveluck-Edwards*; E.J. Goodjohn; Dr. I.J. Johnson*; G.D.D. Carroll; S. Campbell; J.M. Norman a J. Protheroe.

Rheswm dros yr argymhellion

(1&2) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad ac Atodiad A, ac er mwyn i waith Gorchwyl a Gorffen y Pwyllgor ddechrau.